4 Tachwedd 2004

Gyrfa Newydd yn Cyfrif i Famau

Pan ddaw'n fater o gyfuno gyrfa lwyddiannus gyda bywyd teulu, mae'r ddwy fam, Joanna Payne a Cynthia Golder wedi cael y patrwm iawn.

Cyfarfu'r ddwy, sy'n dod o orllewin Cymru, tra'r oeddent yn astudio cyfrifeg yn y coleg. Maent yn awr yn cyflenwi eu huchelgais ac yn rhedeg eu busnes eu hunain gyda help yr asiantaeth datblygu economaidd i fenywod, Chwarae Teg.

Mae Joanna, 27, yn fam sengl i blentyn ac yn byw yn Aberteifi. Meddai "Pan oeddwn i yn yr ysgol, doedd gen i erioed fawr o ddiddordeb mewn dysgu, a gadewais yn 16 oed. Pan wahanais oddi wrth fy ngwr rai blynyddoedd yn ôl, penderfynais ei bod yn bryd i mi lunio dyfodol i mi fy hun a'm merch."

Wedi darganfod fod ganddi ddawn i gadw llyfrau, ymunodd Joanna ar gwrs cyfrifeg yng Ngholeg Aberteifi lle cyfarfu â Cynthia, mam i dri o Landysul.

Treuliodd y ddwy dair blynedd yn astudio yn y coleg, gan ddarganfod eu bod ill dwy yn cael eu denu at entrepreneuriaeth.

Esboniodd Cynthia, 38, "Rwyf wedi treulio'r rhan fwyaf o 'mywyd yn teithio o gwmpas gyda 'ngwr sydd yn y fyddin, felly dydw i erioed wedi gallu sefydlu fy ngyrfa fy hun. Pan wnaethom ymgartrefu yn Llandysul flynyddoedd lawer yn ôl, penderfynais fy mod eisiau cychwyn fy ngyrfa fy hun.

Aeth Joanna a Cynthia at ymgynghorydd Menter Merched Cymru Chwarae Teg, Sue Davies am help i droi eu syniadau busnes yn ffaith.

"Bu Sue yn gymaint o help i ni," meddai Joanna. "Fe roddodd hi gyngor ar lle i gael cyllid ar gyfer busnes a'n cyflwyno i grwpiau rhwydweithio yn yr ardal. Yr oedd yn fentor a nhygoel ac yn rhywun i droi ati trwy gydol yr holl broses."

Yr oeddent yn benderfynol o wrthdroi'r ddelwedd draddodiadol o gyfrifyddion wrth lansio'r busnes 'CereAccounting', felly yr oedd Joanna a Cynthia eisiau cynnig gwasanaeth hyblyg i gleientiaid am bris rhesymol.

"Byddwn yn teithio ar hyd a lled de-orllewin Cymru i ymweld â'n cleientiaid," meddai Joanna. "Rydym ar gael gyda'r nos neu dros y Sul ac wedi gofalu fod ein prisiau yn fforddiadwy i fusnesau sy'n cychwyn."

Mae hyblygrwydd bod yn hunangyflogedig yn golygu y gall y mamau gadw'r ddysgl yn wastad rhwng eu gyrfaoedd a gofalu am eu plant.

"Dyma oedd yr ateb perffaith i mi," meddai Cynthia. "Ni fyddai'n bosibl bod wedi cael gofal plant am ei fod yn rhy ddrud. Trwy redeg y busnes hwn, nid yn unig yr ydw i yn cyflawni f'uchelgais fy hun ond hefyd yn treulio amser gyda'r teulu."

Meddai Sue Davies o Chwarae Teg , "Mae Cynthia a Joanna yn esiamplau gwych o fenywod yn benderfynol o gyrraedd y nod a dod yn entrepreneuriaid. Maent wedi llunio cynllun busnes cadarn a fydd, rwy'n siwr, yn arwain at lwyddiant mawr yn y dyfodol."